| Cyfenw<br>*Surname* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enwau Eraill<br>*Other Names* | | 0 |

# TGAU

4551/02

## UNED 1
## *UNIT 1*
## CYMRAEG AIL IAITH
## *WELSH SECOND LANGUAGE*
## DARLLEN AC YSGRIFENNU
## *READING AND WRITING*
## HAEN UWCH
## *HIGHER TIER*

P.M. DYDD MERCHER, 15 Mai 2013
*P.M. WEDNESDAY, 15 May 2013*

1 awr/*1 hour*

| Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwestiwn** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| **1** | | |
| **2** | | |
| **3** | | |
| **4** | | |
| **CYFANSWM** | | |

4551
020001

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen. Do not use pencil or gel pen. Do not use correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

MAY134551020101

ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

VP*(S13-4551-02)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**1.** Darllenwch y cyfweliad isod gyda Sophie Evans ac yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read the interview below with Sophie Evans and then complete the tasks* ***in Welsh****.*

[24 + ✓ = 6] = **[30]**

*Croeso i'r stiwdio Sophie Evans. Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?*
Ces i fy ngeni yn y Rhondda, yn Nhonypandy ym 1993 ac mae fy nhad a fy mam – David a Michelle yn byw yno nawr.

*Oes brawd a chwaer gyda chi?*
Does dim brawd gyda fi ond mae un chwaer gyda fi – Beth.

*Aethoch chi i Ysgol Uwchradd Tonypandy?*
Do, roeddwn i'n hoffi canu ac actio mewn dramâu a sioeau cerdd yn yr ysgol a choleg Tonypandy.

*Wedyn dod yn enwog yn un deg saith oed ar raglen deledu 'Over the Rainbow' yn 2010 a chael rhan Dorothy yn Wizard of Oz yn Llundain.*
Ie, roeddwn i'n nerfus iawn ond roeddwn i wedi gwneud rhaglen *X Factor* ar y teledu cyn hyn a hefyd rhaglenni ar S4C, ac felly roedd gyda fi beth profiad.

*A dod yn ail yn y sioe dalent 'Over the Rainbow'.*
Ie, daeth Danielle Hope yn gyntaf ac roeddwn i'n ail.

*Felly Danielle oedd yn cael rhan Dorothy yn y sioe ' The Wizard of Oz?*
Ie, ond ar ôl y rhaglen deledu roeddwn i'n lwcus iawn achos roedd Andrew Lloyd Webber yn fy helpu i wneud cwrs cerddoriaeth theatr yn Llundain. A hefyd roeddwn i'n cael canu rhan Dorothy ar ddydd Mawrth a phan oedd Danielle ar wyliau.

*Ac wrth gwrs nawr rydych chi'n cymryd rhan Dorothy trwy'r amser.*
Ydw, ac rydw i wrth fy modd. Mae'n waith caled iawn canu chwech gwaith yr wythnos felly mae rhaid i fi fwyta bwyd iach a mynd i'r gwely'n gynnar er mwyn cael digon o orffwys.

*Ydy bywyd yn Llundain yn wahanol iawn i chi?*
Ydy, mae rhaid i fi ddysgu edrych ar ôl fy hun. Rhaid i fi goginio a chadw'r fflat yn daclus a hefyd dysgu byw gyda phobl eraill yn y fflat.

*Pam oeddech chi'n mynd ar y rhaglen Cariad@Iaith?*
Wel roedd un peth yn fy mhoeni yn Llundain, roedd pobl yn gofyn i fi oeddwn i'n siarad Cymraeg – a doeddwn i ddim. Felly penderfynais i fod rhaid i fi ddysgu siarad Cymraeg yn iawn. Hefyd roeddwn i eisiau gweithio yn Gymraeg ar y teledu ac ar y llwyfan.

*Ydych chi'n gweithio yn Gymraeg erbyn hyn?*
Ydw, rydw i wedi gwneud cyngherddau gyda Rhydian Roberts yn Arena Rhyngwladol Caerdydd a hefyd canu gyda Mark Evans ar ei CD cyntaf. Cefais gyfle hefyd i ganu mewn sawl rhaglen yn Gymraeg ar S4C. Rydw i wrth fy modd yn gweithio yng Nghymru a siarad Cymraeg.

*Beth am y dyfodol Sophie?*
Hoffwn i wneud mwy o waith yn y theatr ac ar y teledu yn Lloegr. Yng Nghymru, dw i eisiau canu mewn cyngherddau ac ar S4C yn Gymraeg. Rydw i'n mwynhau cael gwersi llais yn y coleg yn Llundain ar hyn o bryd a dw i eisiau cael mwy o wersi i wella fy llais eto. Hefyd, hoffwn i gael mwy o amser i fynd yn ôl i'r Rhondda i weld fy nheulu a fy ffrindiau.


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

Llenwch y proffil am Sophie Evans **yn Gymraeg**.
*Complete the profile about Sophie Evans* ***in Welsh****.* [24]

Geni a magu .................................................................................................... [1]

Enw tad a mam (i) ........................................ [1] (ii) ........................................ [1]

Sawl brawd a chwaer .................................................................................................... [1]

Ysgol a Choleg Tonypandy. Hoffi beth? (i) ........................................................ [1]

(ii) ........................................................ [1]

Wedi gwneud ar y teledu cyn y rhaglen *Over the Rainbow* (i) .................................... [1]

(ii) .................................... [1]

Rhaglen *Over the Rainbow*. Pwy oedd 1af? .................... [1] Yn ail? .................... [1]

Ar ôl rhaglen *Over the Rainbow*. Gwneud beth? (i) ........................................ [1]

(ii) ........................................ [1]

Nawr gwneud rhan Dorothy 6 gwaith bob wythnos. Rhaid i Sophie wneud beth?

(i) ........................................ [1] (ii) ........................................ [1]

Byw yn Llundain yn wahanol. Sut?

(i) .................................................................................................... [1]

(ii) .................................................................................................... [1]

(iii) .................................................................................................... [1]

Dysgu Cymraeg ar *Cariad@iaith.* Pam?

(i) .................................................................................................... [2]

(ii) .................................................................................................... [2]

Wedi gwneud beth yn Gymraeg erbyn hyn?

(i) .................................................................................................... [1]

(ii) .................................................................................................... [1]

(iii) .................................................................................................... [1]

4551
020003



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg** yn y **3ydd person** yn rhoi **dwy** ffaith am beth mae Sophie yn ddweud yn y cyfweliad am y dyfodol.
*Write* ***two*** *sentences* ***in Welsh*** *in the* ***3rd person*** *giving* ***two*** *facts about what Sophie says in the interview about the future.* [✓ = 6]

(i) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**TUDALEN WAG**

***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


***PLEASE DO NOT WRITE ON THIS PAGE***

4551
020005


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**2.** Rydych chi a'ch ffrind wedi bod ar wyliau gwersylla. Dyma rai o'r lluniau rydych chi wedi eu tynnu. Ysgrifennwch hanes y gwyliau ar gyfer eich papur bro.
*You and your friend have been on a camping holiday. These are some of the pictures you have taken. Write the story of your holiday for the local paper.*
Rhaid i chi ysgrifennu o leiaf **3 brawddeg yn Gymraeg** am bob llun.
*You must write at least* ***3 sentences in Welsh*** *about each picture.* [10 + ✓ = 10] = **[20]**





© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (4551-02)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

4551
020007



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**TUDALEN WAG**

***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**

***PLEASE DO NOT WRITE ON THIS PAGE***


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**3.** Darllenwch beth mae Gareth a Michelle wedi ysgrifennu mewn cylchgrawn newydd i bobl ifanc. Yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read what Gareth and Michelle have written in a new magazine for young people. Then complete the tasks **in Welsh**.* [24 + ✓ = 6] = **[30]**

**Gareth**

Mae'n gas gyda fi weld elusen yn mynd yn fusnes mawr. Dydw i ddim yn cytuno gyda'r hysbysebion ar y teledu sy'n dangos plant bach Affrica yn dioddef ac yn gofyn i bobl dalu arian bob mis i'r elusen. Mae pawb yn gwybod bod llawer o'r arian yma yn mynd i dalu'r bobl sy'n gweithio i'r elusen ym Mhrydain.

Ond rydw i wrth fy modd yn anfon anrhegion Nadolig o'n capel ni i blant bach tlawd Affrica. Rydw i'n hapus fy mod i'n gallu gwneud rhywbeth i wneud eu Nadolig yn hapusach.

Rydw i'n mwynhau dilyn y ffasiwn, yn arbennig gyda dillad pêl-droed. Rydw i'n hoffi gwisgo dillad fy hoff dîm, Abertawe, achos rydw i'n hoffi dangos i bawb pwy rydw i'n cefnogi a fy mod i'n falch o'r tîm.

Ond mae'n gas gyda fi'r timau pêl-droed sy'n newid y dillad yn eu siopau dwy neu dair gwaith bob blwyddyn. Mae'r clybiau mawr yma yn gwneud llawer iawn gormod o elw o'r dillad, a'r cefnogwyr sy'n talu. Dydy hynny ddim yn deg!

Rydw i'n hoffi pêl-droed achos mae pawb yn gallu chwarae a does dim rhaid i chi fod yn fawr a chryf. Mae sgil yn fwy pwysig na chryfder. Mae rhywun fel Bellamy yn dangos hynny. Dydw i ddim yn hoffi rygbi achos dydw i ddim yn hoffi chwaraeon corfforol, caled. Mae llawer o chwaraewyr rygbi yn brifo ac yn cael anafiadau drwg. Er bod Jamie Roberts yn fawr a chryf, mae e'n dal i gael llawer iawn o anafiadau.

**Michelle**

Bob dydd Sadwrn rydw i'n gweithio yn siop Oxfam yn y dref a dw i wrth fy modd achos rydw i'n cyfarfod llawer o bobl. Mae'n beth da hefyd i'w roi ar fy CV ar gyfer cael gwaith neu fynd i'r coleg.

Ar y llaw arall, dydw i ddim yn hoffi siopau elusen sy'n gwerthu pethau newydd fel cardiau pen-blwydd, cardiau Nadolig a llyfrau. Dylai siopau elusen werthu pethau ail law. Trwy werthu pethau newydd maen nhw'n dwyn cwsmeriaid y siopau bach eraill yn y dref. Wedyn mae'r siopau bach yna yn cau.

Rydw i wrth fy modd yn prynu'r dillad mwyaf ffasiynol o'r siopau mawr yn dref achos mae gwisgo'n ffasiynol yn gwneud i chi deimlo'n dda ac yn codi eich calon pan rydych yn teimlo'n ddiflas.

Ond mae'n gas gyda fi'r holl hysbysebu o ddillad ffasiynol mewn cylchgronau pobl ifanc drwy'r amser. Dydy e ddim yn iawn achos dydy llawer o bobl ifanc heddiw ddim yn gallu fforddio prynu'r dillad yma. Wedyn maen nhw'n cael eu bwlio achos dydy'r dillad gyda'r labeli drud ddim ganddyn nhw.

Mae'n gas gyda fi redeg trawsgwlad achos mae rhaid i chi redeg yn y caeau yn y mwd a'r glaw yn y tywydd oer a phan rydych chi'n gorffen mae eich coesau a'ch dillad yn fwd i gyd.

Rydw i wrth fy modd gyda gymnasteg. Rydw i'n aelod o'r clwb gymnasteg lleol ac rydyn ni'n cyfarfod yn y ganolfan hamdden newydd yn dref. Does dim ots beth ydy'r tywydd tu allan, mae hi bob amser yn gynnes braf yn y ganolfan. Rydych chi'n gallu gwneud gymnasteg yn y gaeaf a'r haf a hefyd gyda'r nos pan mae hi'n dywyll.


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Darllenwch beth mae Gareth a Michelle wedi ysgrifennu yn y cylchgrawn. Mae gan y ddau bethau da a phethau negyddol i ddweud am y tri phwnc. Llenwch y gridiau **yn Gymraeg**. Cofiwch roi'r atebion yn gryno a pheidiwch â chopïo brawddegau o'r darn darllen.
*Read what Gareth and Michelle have written in the magazine. Both have positive and negative things to say on the 3 topics. Complete the grids **in Welsh**. Remember to answer concisely and don't copy complete sentences from the reading passage.* [24]

| | |
|---|---|
| **Gareth** | |
| Gwaith gydag elusen. | - Yn hoffi ..........<br>- Pam? ..........<br>- Ddim yn hoffi ..........<br>- Pam? .......... |
| Dilyn y ffasiwn – dillad pêl-droed. | - Yn hoffi ..........<br>- Pam? ..........<br>- Ddim yn hoffi ..........<br>- Pam? .......... |
| Chwaraeon | - Yn hoffi. Pa un? ..........<br>- Pam? ..........<br>- Ddim yn hoffi. Pa un? ..........<br>- Pam? .......... |
| **Michelle** | |
| Gwaith gydag elusen. | - Hoffi nawr ..........<br>- Pam? ..........<br>- Ddim yn hoffi nawr ..........<br>- Pam? .......... |
| Dilyn y ffasiwn – pobl ifanc. | - Pethau mae hi'n hoffi ..........<br>- Pam? ..........<br>- Pethau dydy hi ddim yn hoffi ..........<br>- Pam? .......... |
| Chwaraeon | - Pethau da ..........<br>- Pam? ..........<br>- Pethau negyddol ..........<br>- Pam? .......... |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig *Examiner only*

(ii) Nawr dewiswch beth ydych chi'n meddwl ydy'r pwynt gorau yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis.
*Now choose what you think is the best point made in the reading passages and your personal reasons for choosing it.* [✓ = 3]

.....................................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................................

(iii) Dewiswch y pwynt dydych chi ddim yn hoffi yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis.
*Choose the point that you don't like in the reading passages and give your personal reasons for choosing it.* [✓ = 3]

.....................................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**4.** Ysgrifennwch ar **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau).
*Write on **one** of the following (about 150 words).* [10 + ✓ = 10] = **[20]**

(i) Fy syniadau i am siarad Cymraeg.
*My ideas/viewpoint about speaking Welsh.*

(ii) Gwaith rhan-amser – pethau da a phethau negyddol.
*Part-time work – positive and negative things.*

(iii) Digwyddiad arbennig yn fy mywyd.
*A special event in my life.*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.